


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerc@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

21 Tachwedd 2016

I Faer y Dref a Chynghorwyr Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun** nos **LUN, 28 TACHWEDD 2016** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams

Clerc y Dref

AGENDA

1. CYFLWYNIAD AR Y PROSIECT IBEACONS

Derbyn cyflwyniad gan Sarah Jones, Cadwyn Clwyd, ynghylch y prosiect uchod ac ystyried cael Rhuthun yn rhan o'r prosiect am gyfraniad o £750.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

3. DATGAN BUDDIANNAU

Datgan buddiannau personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

4. ADRODDIAD Y MAER

5. ADRODDIADAU'R AELODAU

6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

Derbyn a chadarnhau bod cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2016 yn gywir.

7. MATERION YN CODI

8. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016 (copi melyn).

9. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2016 (copi gwyrdd).

10. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYLCH MEITHRIN RHUTHUN

Ystyried cais manylach am gymorth ariannol gan Gylch Meithrin Rhuthun.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

- 11. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYNGOR AR BOPETH RHUTHUN**
Ystyried llythyr a ffurflen gais cymorth ariannol gan CAB Rhuthun am £2,000.
- 12. NODIADAU I GYD-FYND Â'R FFURFLEN CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**
Ystyried cynnwys y nodiadau arfaethedig.
- 13. TREFNIADAU AR GYFER GOLEUO'R GOLEUADAU NADOLIG, 3 RHAGFYR**
Ystyried cais gan Gymdeithas Pantomeim Rhuthun am ddefnyddio'r cyflenwad trydan o Dŵr Cloc Peers yn ystod y diwrnod. Hefyd cais gan Alex Roberts, trefnydd y farchnad, i Gyngor Tref Rhuthun drefnu a thalu am gludo'r rhwystrau ar gyfer y farchnad Nadolig i ac o Sgwâr Sant Pedr, ar gost o £75 + TAW bob ffordd.
- 14. CAIS GAN DARREN MILLAR, AC**
Ystyried cais gan Darren Millar AC i ddod i ac anerch cyfarfod Rhagfyr Cyngor Tref Rhuthun.
- 15. ADNEWYDDU'R TANYSGRIFIAD BLYNYDDOL I GYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**
Ystyried cais i adnewyddu'r tanysgrifiad blynyddol i'r Gymdeithas uchod ar gost o £55.00 ar sail poblogaeth rhwng 5,001 – 9,999 o drigolion.
- 16. RHYDDHAU AIL RANDALIAD LWFANS Y MAER**
Cytuno i dalu £600, sef ail randaliad lwfans y Maer.
- 17. GOHEBIAETH**
Nodi'r eitemau gohebiaeth isod:
i. Clwb Peldroed Rhuthun – ymgyrch ariannu torfol i wella tiroedd y clwb
ii. Cais Llywodraeth Cymru am ddigwyddiadau i'w cynnwys yn Rhaglen 2017 Cymru'n Cofio / Wales Remembers 1914-18
iii. Ymgyngoriad/ymchwiliad i Strategaeth newydd y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru.
- 18. DATGANIAD ARIANNOL**
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2016.
- 19. CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:
- | | | | | |
|------|-------------------------|--|---|---------|
| 953 | Fineline | Nwyddau swyddfa – pocedi plastig | * | £7.44 |
| 954 | Llanfwrog CIC | Torri glaswellt – Tachwedd | | £171.30 |
| 955 | J Lloyd a'i Fab Cyf. | Gosod cadwyn bigog ger Cofeb Tom Pryce | * | £660.00 |
| 956 | Fineline | Papur sidan ar gyfer taflenni trefn y gwasanaeth Sul y Cofio | * | £13.93 |
| 957 | Fineline | 250 copi o Galendr Elusennol 2017 y Maer | * | £589.43 |
| D.D. | BT Business | Gwasanaethau band eang | * | £114.12 |
| 958 | I T Williams Co. Ltd | Cludo cynwysyddion mewnol y basgedi crog | * | £396.00 |
| 959 | Sandra Williams | Te, coffi a bisgedi Sul y Cofio | | £17.73 |
| 960 | SLCC | Cynhadledd Cymru yn Llandudno | * | £35.40 |
| 961 | Cyllid y Wlad | Treth incwm ac yswiriant gwladol | | £252.83 |
| 962 | Marian Rees | Cyfieithu ar y pryd | * | £90.00 |
| 963 | Humphreys Signs & Print | Cynhyrchu a gosod arwyddion Cunning Green | * | £930.00 |
| 964 | Fineline | Cardiau Nadolig y Maer | * | £173.83 |
- (Mae'r eitemau wedi'u dynodi â * uchod yn cynnwys TAW adferadwy gwerth £501.69)
- 20. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Cadarnhau mis dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 19 Rhagfyr 2016.